

CYLCHLYTHYR LLWYBRAU CELTAIDD

Croeso i gylchlythyr Llwybrau Celtaidd Medi 2022.

Gweler isod y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd hyd yn hyn, newyddion am adnoddau newydd i'ch helpu i wneud y mwyaf o'r brand Llwybrau Celtaidd, a chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y prosiect sy'n annog teithwyr i ddarganfod ysbryd Celtaidd Cymru ac Iwerddon.

CYFLWYNO CASGLIAD PROFIADAU CELTAIDD

Mae partneriaeth Llwybrau Celtaidd yn falch iawn o'ch cyflwyno i'r Casgliad Profiadau Celtaidd - casgliad o brofiadau unigryw y gellir eu harchebu a fydd yn helpu'r rhai sy'n ymweld â chwe sir y bartneriaeth yng Ngorllewin Cymru a Dwyrain Hynafol Iwerddon i ddod yn nes at ysbryd Celtaidd ac i ddeall a dathlu'r llefydd a'r bobl y maent yn ymweld â nhw.

Mae gan y [Casgliad Profiadau Celtaidd](#) ei adran bwrpasol ei hun ar wefan Llwybrau Celtaidd ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys 78 o brofiadau yn amrywio o archaeoleg a beicio, i gerdded a syllu ar y sêr. Mae nifer o'r profiadau hyn yn gwbl newydd, ac mae eraill ond yn cael eu marchnata ar lefel leol ac nid ydynt ar gael yn hawdd i ymwelwyr posibl wrth iddynt gynllunio eu taith. Pan

fydd ymwelwyr eisiau archebu, neu gael gwybod rhagor o wybodaeth, gallant gysylltu â'r darparwr neu'r gweithredwr teithiau yn uniongyrchol.

Gellir archebu Profiadau Llwybrau Celtaidd o flaen llaw, naill ai cyn dechrau'r daith, yn ystod y daith, neu cyn cyrraedd. Gellir chwilio'r rhestr ar wefan Llwybrau Celtaidd yn ôl lleoliad naill ai yng Nghymru neu Iwerddon, yn ôl y sir, neu yn ôl y math o brofiad drwy ddefnyddio hidlyddion thematig gan gynnwys Y Celfyddydau a Chrefft,


Treftadaeth, Pererindod, Llesiant ac Ymwybyddiaeth Ofalgar, Natur a Bywyd Gwyllt, Chwaraeon Dŵr neu Aml-weithgaredd.

DATBLYGU'R CASGLIAD PROFIADAU CELTAIDD A SUT I GYMRYD RHAN

Mae'r Casgliad Profiadau Celtaidd hefyd yn gyfres o grwpiau thematig, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fusnesau twristiaeth ar draws y chwe sir sy'n awyddus i gydweithio â'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Prif amcanion cyflwyno'r Casgliad Profiadau Celtaidd yw:

- Datblygu a hyrwyddo profiadau sy'n cyd-fynd â'r Llwybrau Celtaidd sy'n cynnig ac yn helpu i gryfhau ymdeimlad o le.



- Sicrhau bod y profiadau sydd ar gael i ymwelwyr sy'n dymuno archwilio Llwybrau Celtaidd yn hawdd eu harchebu.
- Cryfhau cydweithio ac annog partneriaethau rhwng darparwyr profiad ar draws y 6 sir Llwybrau Celtaidd.
- Hwyluso cyflwyniadau i fusnesau sy'n cynnig profiadau y gellir eu pecynnu gan weithredwyr teithiau a chwmnïau trefnu.
- Cefnogi rhannu dysgu ymhlith busnesau o fewn y 6 sir Llwybrau Celtaidd.

Er mwyn deall pa fusnesau ar draws y Llwybrau Celtaidd allai

fod yn rhan o'r Casgliad Profiadau Celtaidd, cynhaliodd y bartneriaeth Llwybrau Celtaidd weithdai ar-lein yn 2021 gyda rhwydwaith o fusnesau twristiaeth i helpu cyddylunio a datblygu cynhyrchion a phrofiadau newydd sy'n cyd-fynd â themâu Llwybrau Celtaidd.

Fel rhan o'r fenter roedd cyfres o Deithiau Dysgu hefyd ar gael i fusnesau unigol neu gynrychiolwyr grwpiau i ymweld â busnesau o'r un anian yn Iwerddon (neu Gymru ar gyfer busnesau Iwerddon) ac roedd unrhyw gysylltiadau a wnaed o ganlyniad i'r ymweliadau hyn yn helpu i gefnogi'r Rhwydweithiau Thematig.

Gan adeiladu ar Deithiau Dysgu blaenorol byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â busnesau tebyg ar draws ffiniau sirol a gwledydd.

Rhagor o wybodaeth:

<https://llwybrauceltaidd.cymru/y-casgliad-profiadau-celtaidd-1>

I gael gwybodaeth am sut i gymryd rhan yn y Casgliad Profiadau Celtaidd, anfonwch e-bost at:

Oonagh.Messette@wexfordcoco.ie neu RSJones@sirgar.gov.uk neu llenwch y ffurflen Cysylltwch â Ni ar wefan Llwybrau Celtaidd: <https://llwybrauceltaidd.cymru/cysylltwch-a-ni/>

YN DOD I SGRIN DELEDU YN AGOS ATOCH CHI... 'EIN LLWYBRAU CELTAIDD'

Cafodd Ryland Teifi ei fagu gyda chynifer o ddylanwadau diwylliannol o dde-orllewin Cymru. Roedd ei dad yn un o sylfaenwyr Gŵyl Cerdd Cnapan a thrac sain ei ieuenctid oedd cerddoriaeth Ar Log, Plethyn ac Yr Hwntws, yn ogystal â cherddoriaeth Wyddelig. Cyfarfu Ryland â'i wraig Roisin am y tro cyntaf ym 1996 wrth actio gyda Theatr Arad Goch yng Ngŵyl Theatr Dulyn. Wedi hynny, cyfarfu â'i theulu, y teulu Clancy, teulu cerddorol yn debyg iawn i'w deulu ei hun. O'r diwrnod cyntaf, roedd y tebygrwydd rhwng teulu Roisin a theulu Ryland yn drawiadol ac ers hynny mae'r ddau ddiwylliant wedi'u plethu yn eu bywyd teuluol.

Mae gan y teulu ddau gartref. Mae Ryland yn dod o Geredigion ac mae ei ferched yn siarad Cymraeg Gorllewin Cymru. Maen nhw hefyd yn siarad Gwyddeleg gan eu bod yn byw yn Gaeltacht An Rinn, Swydd Waterford, Iwerddon. Mae eu gwreiddiau

fel teulu yn gadarn yn y ddau le hyn. Mae'r merched wedi treulio hanner eu bywydau yn gyfartal rhwng Cymru ac Iwerddon ac maen nhw wedi cael eu trochi yn niwylliannau'r ddwy wlad.


Pan ddaeth Ryland ar draws y Llwybrau Celtaidd cafodd ei ysbrydoli'n syth. Dyma lwybr i gysylltu nid yn unig dwy wlad, dau ranbarth, ond yn bwysicach na hynny, eu dau gartref teuluol, i'w archwilio a'i groesawu. Ar ôl cyfyngiadau'r pandemig, maen nhw'n teimlo'r ysfa i gysylltu, nid yn unig â'u hunaniaeth leol, ond hefyd i archwilio'r ranbarth eang o ble maen nhw'n dod.

Yng nghyfres teledu fer 'Ein Llwybrau Celtaidd' mae Ryland a'i ddwy ferch, Lowri a Cifa, yn mynd ar daith o gwmpas 6 sir y Llwybrau Celtaidd, sef Wicklow, Waterford, Wexford, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Bydd y sioe yn eu dilyn ar y daith hon, ac yn dangos cyffro darganfod, antur a diwylliant.



Fel teulu tairieithog sy'n llawn tynnu coes, dadl a cherddoriaeth, mae'r teulu'n ceisio ail-gysylltu â'u gwreiddiau Celtaidd, gan rannu straeon, iaith, hanes, bwyd a cherddoriaeth wrth iddynt ymweld â'r lleoedd arbennig hyn.

Mae 'Ein Llwybrau Celtaidd' yn gyd-gynhyrchiad gyda'r darlledwyr S4C a TG4 a'r cwmni cynhyrchu Tinint. Mae'r gyfres yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg/Saesneg a Gwyddeleg/Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru ac Iwerddon ac hefyd yn ehangach trwy ddosbarthwyr rhyngwladol. Bydd y gyfres deledu 3 rhan a'r set bocs ddigidol 6 rhan yn cael ei darlledu yr hydref hwn, dyddiadau i'w cadarnhau.



LLWYBRAU CELTAIDD YN Y CYFRYNGAU

Mae'r misoedd diwethaf wedi dod â llu o ddarllediadau yn y cyfryngau yn dilyn nifer fawr o deithiau i'r wasg a drefnwyd ar gyfer newyddiadurwyr o bob rhan o'r DU ac Iwerddon.

Ym mis Mawrth cyhoeddwyd adolygiad gwyb yn sgil taith i'r wasg gan Heather Saul o i newspaper, a ymwelodd â Wicklow, Waterford a Wexford yn gynharach eleni.

Ym mis Mai cyhoeddwyd chwe thudalen wych yng nghylchgrawn Country Walking, yn dilyn ymweliad gan y newyddiadurwraig Rachel Broomhead, a ymwelodd ag Iwerddon a cherddodd ran sylweddol o Lwybr Wicklow Way.


Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Mal Rogers o'r Irish Post a Daily Mail Iwerddon nifer o erthyglau nodwedd yn dilyn ei daith i Gymru, lle ymwelodd â Thalacharn, Cydweli, Rhaeadrau Cernarh ac Arberth, ynghyd â lleoliadau eraill. Mwynhaodd ei brofiad Celtaidd gymaint y gofynnodd am daith i Iwerddon yn ddiweddarach eleni!

Cyhoeddodd cylchgrawn Choice erthygl nodwedd wyth tudalen wych yn dilyn taith i'r wasg i Iwerddon. Ac yng nghanol mis Gorffennaf cyhoeddodd

yr Irish Times erthygl oedd yn canolbwyntio ar y teulu - Take the ferry to Wales for a hassle-free family adventure holiday - yn dilyn ymweliad gan y newyddiadurwr Joanne Hunt a'i theulu ifanc.

Buom hefyd yn gweithio gyda newyddiadurwyr o sawl teitl arall gan gynnwys Motorcaravan Motorhome Monthly, cylchgrawn Trail a'r British Travel Journal ar nifer o erthyglau nodwedd eraill.

Rydym yn aros am sawl erthygl nodwedd arall i'w cyhoeddi o ganlyniad i deithiau diweddar i'r wasg ac mae mwy o deithiau wedi'u trefnu ar gyfer misoedd yr hydref, felly byddwn yn gweld llawer mwy o Lwybrau Celtaidd yn y cyfryngau yn fuan iawn.



Choice



Fel rhan o'n gwaith o
hyrwyddo'r Llwybrau Celtaidd i
gynulleidfaoedd cenedlaethol a
rhyngwladol, rydym wedi bod
yn gweithio gyda dylanwadwyr
ar-lein i ddatblygu cynnwys
cymdeithasol ar draws Facebook,
Twitter, Instagram a YouTube.

Ac ym mis Gorffennaf aeth
y dylanwadwr Gwyddelig All
About Rosa Lilla ar daith i Gymru.
Siaradodd hi am ei hantur yn y
blog hynod ysbrydoledig hwn,
yn ogystal â rhannu'r daith
gyda'i dilynwyr drwy ei sianeli
cymdeithasol.


mwynhau taith i Wexford,
Wicklow a Waterford. Cofiwch
ddilyn sianeli cymdeithasol
Llwybrau Celtaidd lle byddwn yn
postio am ei hanturiaethau.



Can we just take a second to appreciate how beautiful accommodation is tonight?

The Celtic Routes has been borne out of partnership between six Irish and Welsh counties encouraging visitors to 'go deeper, stay longer'. The relationship between the two Celtic nations has been formed on the basis of an unbreakable bond formed through their shared heritage of untamed landscapes, ancient crosses, chapel ruins and sacred stones.

Irish migrants who settled in Wales in the 5th century left their mark through the Ogham stones that still line the Welsh coastline today. And in return, Wales gave St Patrick to Ireland – or so they say. The Celtic Routes aims to showcase this primal relationship to new eyes and ears, to new visitors who will discover untamed nature and roads less travelled, that still follow the pulse of the changing seasons and rhythms of the natural world. And where legends of saints, giants and princes will transport visitors to whole new worlds.



LLYFRGELL ASEDAU LLWYBRAU CELTAIDD

Mae ein llyfrgell asedau ar-lein yn cynnwys miloedd o ffotograffau a fideos proffesiynol o leoliadau ar draws y Llwybrau Celtaidd.

Bwriad y llyfrgell asedau yw darparu adnoddau marchnata

gweledol o ansawdd uchel **AM DDIM** i chi a fydd yn eich helpu i ddechrau eich taith Llwybrau Celtaidd gyda ni.

I weld ein detholiad helaeth o ddelweddau a fideos cliciwch **yma** a chofrestru i

gael mynediad, a byddwch yn gallu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ar yr amod eich bod yn cadw at y Telerau Defnyddio ac yn rhoi credyd i'r Llwybrau Celtaidd.

LLWYBRAU CELTAIDD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dilynwch, rhannwch ac ymgysylltwch â Llwybrau Celtaidd ar draws eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun.

 @CelticRoutes

 @CelticRoutes

 @CelticRoutes

#CelticRoutes
#MyCelticMoment
#LlwybrauCeltaidd

